

**Arolygiad Dilynol  
(Dirybudd) Iechyd  
Meddwl /  
Anabledd Dysgu**

**Cefn Carnau: Sylfaen,  
Bryntirion a Derwen:  
Priory Group Limited**

Dyddiad arolygu: 19 – 20 Mai 2016

Dyddiad cyhoeddi: 22 Awst 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	4
2. Methodoleg.....	5
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	6
4. Crynodeb.....	7
5. Canfyddiadau .....	8
Safonau Craidd .....	8
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	16
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	17
6. Y Camau Nesaf .....	18
Atodiad A.....	19

## 1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluoedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gynnal yr arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)<sup>1</sup>
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau, gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyriaeth o ansawdd bwyd
- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a llyeg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffuriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

---

<sup>1</sup> Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

### 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Ysbyty diogelwch isel yw Ysbyty Priory yng Nghefn Carnau, sy'n darparu gofal a thriniaeth ar gyfer hyd at 22 o oedolion â diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu a allai fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r ysbyty wedi'i leoli rhwng Caerffili a Chaerdydd, ac mae'n eiddo i Priory Group Limited. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru i ddarparu'r canlynol:

- Mae Ward Sylfaen yn wasanaeth diogelwch isel ar gyfer uchafswm o wyth o oedolion benywaidd sy'n hŷn na 18 oed ac sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Mae Ward Bryntirion wedi'i chofrestru ar gyfer uchafswm o wyth o oedolion gwrywaidd sy'n hŷn na 18 oed ac sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Mae Ward Derwen yn wasanaeth diogelwch isel ar gyfer uchafswm o chwech o oedolion gwrywaidd sy'n hŷn na 18 oed ac sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

## 4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad dilynol o Ysbyty Cefn Carnau ym mhob un o'r tair ward. Canfuom ddatblygiadau cadarnhaol ers ein harolygiad blaenorol ym mis Awst 2015, ond roedd dal i fod nifer o fannau lle'r oedd angen gwella. Canfuom nifer o enghreifftiau o fynd yn groes i reoliadau, ond roeddem yn fodlon ar nifer o ganfyddiadau cadarnhaol.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi bod y staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses arolygu, a gwelsom fod perthynas dda rhwng y staff a'r cleifion.

Ers ein harolygiad blaenorol, cafwyd newidiadau sylweddol i'r tîm amlddisgyblaethol yng Nghefn Carnau, gan gynnwys cyfarwyddwr ysbyty a rheolwr gwasanaethau clinigol newydd. Roedd rheolwyr yr ysbyty yn gwneud cynnydd o ran recriwtio i swyddi gweigion yn y sefydliad. Fodd bynnag, er bod yr ysbyty'n dibynnu ar nyrsys asiantaeth i gyflawni lefelau staffio, roedd yr ysbyty wedi contractio nyrsys asiantaeth ar sail tymor hir i helpu sicrhau cysondeb gofal. Yn ogystal, roedd y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod nyrs gofrestredig barhaol yn gweithio pob sifft yn yr ysbyty.

Gwelwyd gwelliant yn ffigyrau hyfforddiant y staff ers ein harolygiad blaenorol. Gwelwyd cynnydd hefyd yn y nifer o arfarniadau staff blynyddol a gwblhawyd, ond er hynny roedd y system goruchwylio clinigol i staff yng nghamau cynnar ei datblygiad adeg ein harolygiad.

Roedd gwelliant o ran y wybodaeth a gedwir ar benodiad a hyfforddiant staff parhaol ac ar yr hyfforddiant a gwblhawyd gan staff asiantaeth.

Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael ar gyfer y cleifion yng Nghefn Carnau ac yn y gymuned. Soniodd staff yn yr adran therapi galwedigaethol am gynlluniau i ddatblygu'r gwasanaethau sydd ar gael, gan gynnwys gweithio gyda darparwyr addysg lleol yn y gymuned.

Derbyniwyd sylwadau ffafriol ynglŷn â'r gwasanaeth eiriolaeth gan y cleifion a'r staff, ac roedd gwybodaeth a phosteri wedi eu harddangos yn eglur ar y wardiau. Roedd y trefniadau ar gyfer gweinyddu'r Ddeddf Lechyd Meddwl yn drwyadl iawn, ac roedd systemau effeithiol ar waith.

Roedd Cefn Carnau yn treialu system cofnodion cleifion electronig – er i hyn ganiatáu mynediad hawdd at gofnodion cleifion, nid oedd bob tro'n eglur sut yr oedd darpariaeth y Mesur Lechyd Meddwl yn cael ei dilyn. Fodd bynnag, cadarnhaol oedd nodi bod asesiadau cleifion manwl yn nodiadau'r cleifion.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

#### **Amgylchedd y ward**

Yn dilyn ein harolygiad ym mis Awst 2015, mae'n amlwg bod y gwaith o ailaddurno ac adnewyddu mannau'r cleifion yng Nghefn Carnau wedi parhau. Serch hynny, roedd rhai mannau o'r amgylchedd oedd dal angen eu gwella fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw parhaus.

Roedd Ward Sylfaen wedi cael ei hailaddurno ac arddangoswyd lluniau a hysbysfyrddau ledled y ward. Roedd gan yr hysbysfyrddau wybodaeth ynglŷn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, rheolau'r ward, sut i wneud cwyn, canllaw i gleifion, gweithdrefn gadael mewn achos o dân, a manylion cyswllt AGIC.

Roedd dwy lolfa ar gael ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd gan y ddwy lolfa deledu a digon o seddi. Roedd ystafell wydr ger y brif lolfa a mynediad at ardd. Ymddangosai'r ardd yn daclus gyda pheth planhigion ynddi. Roedd seddi a chyfleusterau ar gael ar gyfer ysmegu hefyd.

Roedd y gegin yn olau, arddangoswyd bwydlen, ac roedd cyfleusterau ar gael i gleifion fedru cadw eu heitemau bwyd eu hunain. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, roedd yr oergell yn cynnwys eitemau a'u dyddiadau wedi dod i ben; nodwyd hyn fel problem yn ein harolygiad yn 2015 hefyd. Mae angen gwirio eitemau bwyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w bwyta. Canfuom hefyd fod rhai eitemau bwyd wedi'u lapio/selio'n amhriodol yn y rhewgell-rewgist.

#### ***Camau gofynnol***

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y cwblheir y broses o sicrhau bod pob eitem fwyd o fewn ei dyddiad ac yn ddiogel i'w bwyta.*

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob eitem fwyd wedi ei storio'n briodol yn y rhewgell-rewgistiau.*

Lleolwyd swyddfa nyrs ac ystafell weinyddu ar y llawr daear, yn ogystal ag ystafell ymolchi gyda thoiled a sinc. Roedd y cyfleusterau'n lân a'r amgylchedd yn olau.

Roedd ystafelloedd gwely'r cleifion i fyny'r grisiau ac roedd gan bob claf ei ystafell ei hun. Roedd yr ystafelloedd gwely yn rhesymol o ran maint ac roedd digon o le i gadw eiddo'r cleifion.

Lleolir Ward Bryntirion ar ail lawr yr ysbyty, a'r unig ffordd o gael mynediad ati yw trwy ddringo'r grisiau. Roedd yr holl gyfleusterau ar gyfer y cleifion ar yr un



llawr – lleolwyd yr ystafelloedd gwely ar y naill ochr o'r ward, a manau byw'r cleifion ar y llall.

Wrth fynd i mewn i'r ward, mae cyntedd mawr, a lleolir swyddfa'r nyrs yma. Roedd seddi y gallai'r cleifion eistedd arnynt, a hysbysfyrddau a oedd yn dangos amrywiaeth o wybodaeth i'r cleifion. Roedd y cleifion wedi cwblhau posau jig-so, ac roedd y rhain wedi eu fframio a'u harddangos ar waliau'r ward.

Roedd gan y ward un lolfa gyda theledu a chonsol gemau. Roedd cypyrddau clo'r cleifion wedi eu lleoli yn y lolfa, ac roeddent yn gallu storio eu heiddo personol ynndynt. Roedd i'r lolfa deimlad ymlaciol, ac roedd gemau bwrdd a llyfrau ar ben bwrdd coffi yng nghanol y lolfa.

Roedd cegin/ystafell fwyta wedi'i haddurno'n ddymunol ar ben pellaf y ward. Roedd bwrdd bwyta mawr, pren â digon o seddi yng nghanol yr ystafell. Ar ben y bwrdd, roedd powlen ffrwythau ar gael a chanddi amrywiaeth o ffrwythau ar gyfer y cleifion. Roedd matiau ar y bwrdd, ac roedd hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael profiad bwyta cadarnhaol. Câi prydau bwyd eu dosbarthu a'u gweini drwy ddefnyddio lifft bwyd/agoriad gweini yn yr ystafell.

Roedd modd i'r cleifion gael mynediad at yr ardd a leolid i lawr y grisiau. Roedd yr ardal wedi'i chynnal a'i chadw'n dda; roedd y lawntiau wedi eu torri ac roedd gwely blodau yno.

Lleolir Ward Derwen ar y llawr daear. Wrth fynd i mewn i'r ward roedd ystafell ymolchi, ac ymhellach i lawr y ward roedd ystafelloedd gwely'r cleifion. Roedd lolfa ac ystafell wydr yn darparu ystafelloedd lle gallai'r cleifion ymlacio a gwyllo'r teledu, a cheid mynediad at yr ardd, a gynhaliwyd yn dda, trwy'r ystafell wydr.

Roedd ystafell fwyta wedi'i lleoli ar ben y ward, ac roedd yn cynnwys digon o seddi a byrddau ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd swyddfa nyrsio ac ystafell glinig ar y ward hefyd.

### **Y tîm amlddisgyblaethol**

Ers ein harolygiad blaenorol, cafwyd nifer o newidiadau sylweddol i'r tîm amlddisgyblaethol yng Nghefn Carnau. Roedd cyfarwyddwr ysbyty newydd a benodwyd yn ddiweddar, ynghyd â rheolwr gwasanaethau clinigol newydd. Ar adeg ein harolygiad, roedd seiciatrydd ymgynghorol locwm yn gweithio yng Nghefn Carnau, ynghyd â seicolegydd clinigol a seicolegydd fforensig, ill dau fel gweithwyr locwm hefyd. Roedd proses recriwtio ar waith ar gyfer yr holl swyddi a oedd yn cael eu cyflenwi gan weithwyr locwm.

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod y tîm amlddisgyblaethol newydd yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol. Dywedodd y

staff fod eu safbwyntiau proffesiynol yn cael eu ceisio a'u gwerthfawrogi, ac roeddent yn teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu.

Ar adeg ein harolygiad, roedd nifer o swyddi gweigion ledled tîm amlddisgyblaethol Cefn Carnau, gan gynnwys nyrsys iechyd meddwl (ac un rheolwr ward), cynorthwywyr gofal iechyd, cynorthwywyr therapi galwedigaethol, a chynorthwydd seicoleg. Llenwyd rhai o'r swyddi gan aelodau o staff sydd i fod i ddechrau gweithio yng Nghefn Carnau yn ystod y mis nesaf; gwnaethpwyd cynigion i ddarpar-ymgeiswyr ar gyfer y swyddi eraill, ac mae'r bwrdd iechyd yn aros am atebion yr ymgeiswyr.

Er ei bod hi'n amlwg bod ymdrechion ar waith i lenwi'r swyddi gweigion yng Nghefn Carnau, cafodd y sefyllfa ar adeg ein harolygiad effaith niweidiol ar gysondeb gofal y cleifion, gyda'r bwrdd iechyd yn defnyddio staff cronfa ac asiantaeth i gyflenwi swyddi gweigion.

### ***Cam gofynnol***

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau AGIC ynghylch swyddi gweigion yr ysbyty a hynt y broses recriwtio.*

### **Diogelwch**

Roedd Cefn Carnau wedi rhoi system ar waith i sicrhau bod un person enwebedig sydd â gofal am yr ysbyty, a fyddai'n hysbysu'r uwch-reolwr ar ddyletswydd mewn achos brys. Nid oedd y broses hon ar waith yn ystod ein harolygiad blaenorol.

Dywedodd aelodau o dîm uwch-reolwyr Cefn Carnau fod gan bob sifft o leiaf un nyrs gofrestrdig a gyflogir yn barhaol ar ddyletswydd yn yr ysbyty. Cadarnhawyd hyn wrth i ni archwilio rotâu'r staff ar gyfer y mis yn arwain at ein harolygiad. Yn ystod ein hymweliad blaenorol, gwnaethom nodi, un noswaith, nad oedd unrhyw nyrs gofrestrdig a gyflogir yn barhaol ar ddyletswydd; bryd hynny, roedd y tair ward yn cael eu rheoli gan ddwy nyrs asiantaeth ac un nyrs gronfa.

Mae'r ysbyty'n cadw cofnod o'r staff asiantaeth a ddefnyddiwyd, gyda thystiolaeth gan yr asiantaethau o'r hyfforddiant a gwblhawyd gan bob aelod o staff asiantaeth. Roedd hyn yn welliant ers ein harolygiad blaenorol lle nad oedd rhai aelodau o'r staff asiantaeth yn gallu arddangos gwybodaeth hanfodol i weithio yn y gwasanaeth hwn.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod Cefn Carnau'n parhau i ddibynnu ar staff asiantaeth a chronfa i ddiwallu lefelau staffio angenrheidiol yr ysbyty ar gyfer pob sifft. Roedd yr angen am staff asiantaeth a chronfa'n fwy cyffredin gyda'r nos ac ar benwythnosau. Roedd hyn yn bryder arbennig am nad oedd

cymaint o uwch-reolwyr yn bresennol ar yr adegau hyn. Roedd Cefn Carnau wedi penodi dwy nyrs iechyd meddwl ar gytundebau asiantaeth hirdymor; ychwanegodd hyn mewn modd amlwg at gysondeb y ddarpariaeth ofal yng Nghefn Carnau.

### **Gofal iechyd cyffredinol**

Gwnaethom adolygu'r ystafell driniaeth/glinigol ar y tair ward ac arsylwi rownd feddyginiaeth ar Ward Sylfaen.

Gwelwyd arfer da gyda Ffeil Archwilio Ystafell Glinig ym mhob un o'r ystafelloedd clinig, a thystiolaeth o gwblhau'r archwiliadau ynddynt. Nid oedd polisi *Gweinyddu Meddyginiaeth yn yr Ysbyty* y sefydliad ar gael yn un o ystafelloedd clinig y ward; cywirwyd hyn ar unwaith gan aelod o staff.

Yn ystod yr adolygiad o'r ystafelloedd clinig, nodwyd bod y llun oedd yn arddangos cynnwys y cwdyn cyfarpar dadebru yn aneglur ac roedd yn anodd gweld beth oedd yn y cwdyn; gallai hyn effeithio ar ddiogelwch cleifion pe bai'r staff yn ansicr o'r hyn sydd angen bod yn y cwdyn cyfarpar dadebru. Rhaid i'r darparwr adolygu'r arddangosfeydd er mwyn sicrhau bod cynnwys y cwdyn cyfarpar dadebru'n eglur fel y gall gael ei wirio a'i gynnal.

Gwelsom hefyd ar un ward nad oedd y torrwr/bachyn rhwymynnau'n cael ei gadw wrth y cwdyn cyfarpar dadebru; roedd wedi syrthio oddi ar y wal ynghynt ac fe'i canfuwyd ar silff lyfrau ar ochr arall yr ystafell. Mae angen mynediad ato mewn argyfwng ac felly mae angen iddo fod wrth ochr y cwdyn cyfarpar dadebru.

### ***Cam gofynnol***

*Rhaid i'r darparwr ddiwygio arddangosfeydd y cwdyn cyfarpar dadebru er mwyn sicrhau bod cynnwys y cwdyn cyfarpar dadebru'n eglur fel y gall gael ei wirio a'i gynnal.*

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, gwelsom fod meddyginiaeth a'i dyddiad wedi dod i ben yn yr ystafelloedd clinig; cadarnhaol oedd nodi nad fel yna yr oedd hi yn ystod yr arolygiad hwn.

Roedd cleifion yn gallu gwneud apwyntiadau ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd cymunedol megis meddyg teulu, optegydd neu ddeintydd.

### **Preifatrwydd ac urddas**

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd cleifion yn gallu cloi drws eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn, ond roedd staff yn gallu eu hagor pe bai angen. Roedd hi'n amlwg bod cleifion yn gallu storio ac arddangos eitemau personol yn eu hystafelloedd.

Nid oedd gan gleifion gyfleusterau *en suite* yn eu hystafelloedd gwely, ond roedd gan bob ward nifer o doiledau a chyfleusterau cawod at ddefnydd y cleifion. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried darparu cyfleusterau *en suite*.

Roedd cyfleusterau er mwyn i'r cleifion allu derbyn ymwelwyr, ac roedd ffonau ar gael er mwyn i'r cleifion allu cadw mewn cyswllt â'u teulu a'u ffrindiau. Roedd hi'n amlwg bod ymweliadau wythnosol gan wasanaeth eiriolaeth lleol a bod caplan yn ymweld bob pythefnos. Gallai'r cleifion ofyn am gael gweld cynrychiolwyr o'r gwasanaethau Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol ac Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Yn ystod ein harsylwadau o'r amgylchedd ac wrth siarad â staff, roedd diffyg cyfleusterau ar gael ar gyfer y cleifion a allai angen cymorth i fynd i fannau'r cleifion ar lawr cyntaf yr ysbyty; nid oedd lifftiau na chymorth mecanyddol ar gael ar gyfer y grisiau. Caiff symudedd cleifion ei asesu cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty er mwyn ystyried addasrwydd yr amgylchedd ar gyfer y claf unigol. Fodd bynnag, roeddem yn poeni y gallai rhyddid y claf i symud o gwmpas yr ysbyty gael ei effeithio pe bai ei symudedd yn gostwng (dros dro neu'n barhaol) pan oedd yn breswlydd yng Nghefn Carnau. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried sut i helpu cleifion i symud o gwmpas Cefn Carnau pan fo angen.

### **Therapiau a gweithgareddau i gleifion**

Roedd gan gleifion fynediad at nifer o therapïau a gweithgareddau yng Nghefn Carnau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau grŵp ac unigol ynghyd â gweithgareddau yn y gymuned ar gyfer cleifion pan fo'n briodol.

Roedd gan gleifion amserlen gweithgareddau bersonol er mwyn trefnu'r gweithgareddau maent yn eu gwneud, gan gynnwys cerdded yn y gerddi, coginio, golff ar y cwrs lleol, beicio, a gemau bwrdd a chardiau. Cynhelir clwb cymdeithasol bob noswaith ble daw cleifion ynghyd i sgwrsio, chwarae gemau a gwrando ar gerddoriaeth. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom arsylwi gweithgareddau'n cael eu cyflawni yng Nghefn Carnau ynghyd â rhai cleifion yn defnyddio absenoldeb trwy ganiatâd er mwyn cael mynediad at y gymuned.

Ar benwythnosau, dywedodd staff wrthym fod gweithgareddau ar y safle yn cael eu cynnal gan fwyaf, ond byddai staff yn ceisio mynd â chynifer o gleifion allan â phosibl, yn dibynnu ar lefelau staffio a mynediad at dri cherbyd ysbyty. Byddai cleifion ag absenoldeb Adran 17 yn hoffi trefnu ymweliadau adref i weld teulu a ffrindiau.

Ers ein harolygiad diwethaf, mae'r ysbyty wedi penodi therapydd galwedigaethol newydd i'r gwasanaeth. Ers ei benodiad, mae'r therapydd galwedigaethol wedi holi'r cleifion yng Nghefn Carnau ynghylch eu diddordebau a'r gweithgareddau byddai'r cleifion yn dymuno eu cyflawni.

Roedd y tîm therapi galwedigaethol wrthi'n gweithredu system adolygu a monitro therapi galwedigaethol newydd ar gyfer gweithgareddau cleifion. Bydd y tîm yn cofnodi bob tro y bydd claf yn cyflawni gweithgaredd, ac yn nodi pe bai'n gwrthod a'r rhesymau dros wrthod, a ph'un a gynigiwyd neu cwblhawyd gweithgaredd arall. Byddai'r tîm yn adolygu ymgysylltiad unigol cleifion â'u gweithgareddau ac yn trafod mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol gyda'r claf er mwyn archwilio'r gweithgareddau a gynigir ac unrhyw weithgareddau amgen y gellid eu darparu. Roedd y staff yn teimlo y byddai hyn yn ymgymryd â phryderon rhai o'r cleifion ynglŷn â diffyg gweithgareddau priodol yng Nghefn Carnau. Cydnabu'r therapydd galwedigaethol y byddai ambell weithgaredd y byddai'r cleifion yn gofyn amdanynt na fyddai'n briodol oherwydd y ffactorau risg sydd ynghlwm wrthynt. Fodd bynnag, roedd y therapydd galwedigaethol yn teimlo y gallai ei dîm ddefnyddio ceisiadau o'r fath gan gleifion fel nodau mesuradwy o fewn cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion.

Gwnaethom ymweld hefyd â'r ystafell dawel/synhwyrdd newydd ei datblygu a oedd yn cael ei defnyddio'n ogystal fel ystafell aml-ffydd. Dewisodd y preswylwyr y lliwiau ac yn ogystal gwnaethant helpu i beintio'r ystafell.

Gwnaethom nodi yn ystod ein harolygiad blaenorol bod y ddarpariaeth addysg fewnol wedi'i chwtogi'n sylweddol a bod achrediad yr ysbyty wedi dod i ben; ar adeg ein harolygiad, felly yr oedd hi'n dal i fod. Gwnaethom drafod gyda chyfarwyddwr yr ysbyty a'r therapydd galwedigaethol eu bwriadau i ddarparu mewnbyn addysgiadol ar gyfer cleifion yng Nghefn Carnau. Roedd y therapydd galwedigaethol yn frwd dros gyflwyno asesiadau addysg sylfaenol ar gyfer yr holl gleifion yng Nghefn Carnau er mwyn medru asesu anghenion unigol cleifion a cheisio darpariaeth gan wasanaethau addysg lleol.

### ***Camau gofynnol***

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu diweddariad ar weithredu'r system adolygu a monitro therapi galwedigaethol ar gyfer gweithgareddau cleifion.*

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu diweddariad ar gyflwyno asesiadau addysg sylfaenol ar gyfer y cleifion.*

### **Bwyd a maeth**

Roedd dau gogydd yn gweithio yn yr ysbyty ar adeg ein hymweliad, a dywedodd y cleifion fod ganddynt fwydlen a'u bod yn dewis eu hopsiynau

bwyd oddi arni. Gallai'r cleifion brynu a chadw eu byrbrydau eu hunain a gallent gael diod a byrbryd y tu hwnt i amserau bwyta penodol.

Roedd llyfr sylwadau ar gael i'r cleifion fedru ysgrifennu adborth ynghylch y bwyd a weinir, a byddai'r staff arlwygo yn adolygu'r llyfr yn rheolaidd.

### **Hyfforddiant**

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau staff a nodi gwelliant o ran y wybodaeth a oedd ynddynt ers ein harolygiad blaenorol. Roedd gan y ffeiliau y gwnaethom eu harolygu ddogfennau adnabod ffotograffig ar gyfer y cyflogeion, ynghyd â'u ffurflenni cais a manylion eu penodiad.

Roedd system ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gwnaethom nodi a chymeradwyo'r arfer da roedd Ysbyty Cefn Carnau wedi'i fabwysiadu ar gyfer adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y staff yn rheolaidd. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod yr ysbyty'n cynnal archwiliad annibynnol, sy'n helpu i wella gallu'r sefydliad i asesu uniondeb a chymeriad ei staff.

Roedd gan Gefn Carnau system ar waith hefyd i fonitro a yw'r cyflogeion yn cynnal eu cofrestriad proffesiynol lle bo'n angenrheidiol.

Dangosodd dadansoddiad o'r ystadegau hyfforddiant welliant ers ein harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, dim ond 60% o'r staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol. Rydym yn awgrymu y dylai hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer yr holl staff yng Nghefn Carnau.

Roedd yr uwch staff wrthi'n cyflawni hyfforddiant cefnogi ymddygiad cadarnhaol ar Lefel 5, gyda'r bwriad y byddai'r staff yng Nghefn Carnau yna'n derbyn hyfforddiant cefnogi ymddygiad cadarnhaol ar Lefel 4; mae cyflawni'r hyfforddiant hwn yn flaenoriaeth ar gyfer staff Cefn Carnau.

### ***Cam gofynnol***

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r cofnodion hyfforddi a sicrhau yr eir i'r afael â diffygion o ran hyfforddiant gorfodol.*

Ers ein harolygiad blaenorol, roedd cynnydd wedi bod yn nifer y gwerthusiadau blynyddol a gwblheir; roedd hyn wedi cynyddu i 86%. Yn ystod ein harolygiad blaenorol, gwnaethom nodi bod diffyg o ran yr oruchwyliaeth glinigol a gwblheir yng Nghefn Carnau. Oherwydd nifer o newidiadau staffio, gan gynnwys uwch-reolwyr, nid oedd goruchwyliaeth glinigol unigol yn cael ei chynnal ar adeg ein harolygiad dilynol; fodd bynnag, roedd y rheolwr gwasanaethau clinigol wrthi'n cwblhau'r *Goeden Oruchwyllo* fel y gallai sesiynau goruchwyllo ddechrau. Yn ogystal, mae goruchwyliaeth grŵp wedi dechrau ers ein harolygiad blaenorol.

### ***Cam gofynnol***

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff rhaglen oruchwyliaeth ei rhoi ar waith a'i thystio.*

Roedd gwelliant yn y mynediad at system TG yr ysbyty at ddiben cofnodi gwybodaeth ar nodiadau gofal. Mae gan unrhyw staff cronfa neu asiantaeth fynediad at y nodiadau gofal trwy gyfrifon dros dro, sy'n caniatáu i'r aelod o staff gael mynediad at y wybodaeth ofynnol er mwyn darparu gofal a mewnbynnu gwybodaeth ar y system TG.

### **Llywodraethu**

Roedd cyfarfodydd misol y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol wedi'u trefnu yng Nghefn Carnau, ac roedd y rhain yn helpu o ran llywodraethu ac archwilio'r ysbyty. Cyflwynodd yr ysbyty, yn ogystal, gyfarfodydd Dysgu o Brofiad wythnosol, fel y gellid rhannu digwyddiadau a dysgu ohonynt.

Ym mis Rhagfyr 2015, ymgwymerodd The Priory Group, fel y darparwr cofrestredig, â'i ymweliad Rheoliad 28 fel y mynnir gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Nid oedd y rhain wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd cyn ein harolygiad blaenorol ym mis Awst 2015. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y rhain yn parhau, ac y cyflenwir AGIC â chopïau o'r adroddiad, bob chwe mis fel y mynnir.

## ***Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl***

Cadarnhaol oedd canfod, ers ein harolygiad blaenorol, bod rôl wedi'i chreu ar gyfer gweinyddwr cynorthwyol y Ddeddf Iechyd Meddwl i gefnogi gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n gofalu am leoliadau The Priory Group ledled de Cymru. Mae hyn yn darparu adnoddau ychwanegol i gynnal y trefniadau diogelu sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Cadwyd dogfennaeth wreiddiol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ddiogel yn swyddfa weinyddiaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl, gyda chopïau wedi eu ffeilio mewn ffolderi neilltuedig ar bob un o'r wardiau fel y gallai staff gyfeirio atynt yn ôl y gofyn.

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol chwech o'r cleifion dan gadwad oedd yn derbyn gofal ar dair ward ar adeg ein hymweliad. Ar y cyfan, canfuwyd bod y ffeiliau mewn cyflwr da. Roedd pob dogfen dderbyn yn ddarllenadwy a rhoddodd ffurflenni absenoldeb Adran 17 amodau eglur a chryno ynghlwm wrth absenoldeb trwy ganiatâd y clinigydd cyfrifol.

Roedd gan The Priory Group bolisiâu Deddf Iechyd Meddwl ar waith a oedd yn benodol yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau Iechyd Meddwl Cymru a Chod Ymarfer Cymru. Roedd y rhain ar gael trwy fewnrwyd y sefydliad. Roedd fersiynau Saesneg o God Ymarfer Iechyd Meddwl 1983 Cymru ar ddwy o'r wardiau a fersiwn Gymraeg ar y drydedd ward. Pe bai angen, gallai cleifion trwy gydol yr ysbyty gael mynediad at y cod yn y naill iaith.

Wrth adolygu dogfennaeth statudol a nodiadau gofal y cleifion, nid oedd bob tro'n amlwg bod pob ymdrech wedi cael ei gwneud i nodi perthynas agosaf claf, fel y diffinnir gan Adran 26 y Ddeddf. Lle ni ellir enwi perthynas agosaf, dylai'r sefydliad ystyried Adran 29, Penodiad gan lys i weithredu fel y perthynas agosaf.

O'r chwe chyfres o ddogfennaeth ward a adolygwyd, gwnaethom nodi bod y dystysgrif cydsynio i driniaeth a'r ffurflen asesu galluedd MH11 fwyaf cyfredol yn absennol o un o'r ffeiliau ward; nodwyd yr un broblem yn ystod ein harolygiad blaenorol. Gwnaethom gadarnhau bod y dogfennau gwreiddiol ar gael yn swyddfa'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

### ***Cam gofynnol***

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gofynion Adran 26, ac Adran 29 lle bo'n briodol, y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cwblhau a'u tystio yn nodiadau'r cleifion.*

*Rhaid i gopiâu o ddogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys tystysgrifau cydsynio i driniaeth a ffurflenni asesu galluedd MH11, fod ar gael i staff y ward eu hadolygu yn ôl y gofyn.*



## **Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl**

Roedd Cefn Carnau'n treialu system cofnodion cleifion electronig; er bod hyn yn caniatáu mynediad hawdd at gofnodion cleifion, nid oedd bob tro'n eglur sut yr oedd darpariaeth y Mesur Iechyd Meddwl yn cael ei dilyn. Er bod y system electronig yn galluogi staff i fewnbynnu meysydd y mesur, nid oedd bob tro'n eglur ym mha le yn y cofnod electronig y cofnodwyd pob maes. Mae'n ymddangos bod angen adolygu llunwedd y system fel ei bod hi'n amlwg pa ran o'r system sy'n cyfeirio at ba faes/meysydd y Mesur. Byddai'n fuddiol pe bai staff yn derbyn hyfforddiant ar sut i fewnbynnu gwybodaeth ar y system electronig er mwyn tystio cydymffurfiaeth â Mesur Cymru, gan gynnwys pennu amcanion a chanddynt amser penodol ac amserlenni ar gyfer gwerthuso. Yn ogystal, nid oedd cofnodion o anghenion heb eu cyflawni yn y nodiadau gofal.

Wrth adolygu'r nodiadau gofal, roedd hi'n amlwg bod nifer sylweddol o feysydd wedi cael eu gadael yn wag gan y staff wrth iddynt gwblhau'r ddogfennaeth, felly nid oedd y cofnodion yn hollol gyflawn.

Gwnaethom sylwi ar asesiadau cleifion manwl iawn yn y cofnodion cleifion electronig; fodd bynnag, roedd peth o'r wybodaeth ar ffurf cofnodion papur, megis y dull MUST, siartiau arsylwi, dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl ayyb., felly roedd rhaid i'r staff edrych mewn nifer o leoedd ar gyfer gwybodaeth am glaf. Byddai'n fuddiol ar gyfer staff y ward pe bai gwybodaeth cleifion ar gael ar y system electronig.

### **Camau gofynnol**

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y system cofnodion cleifion electronig yn galluogi staff i ddogfennu cydymffurfiaeth â'r Mesur Iechyd Meddwl.*

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod aelodau'r staff yn gymwys i gwblhau dogfennaeth sy'n cydymffurfio â'r Mesur Iechyd Meddwl.*

*Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yr holl ddisgyblaethau'n cwblhau cofnodion gofal iechyd yn llawn.*

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Ysbyty Cefn Carnau gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, ac i gyflwyno'i gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Cefn Carnau'n cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar gyfer iechyd meddwl/anabledd dysgu.

## Atodiad A

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella  
Darparwr: Priory Group Ltd  
Ysbyty: Cefn Carnau  
Dyddiadau'r arolygiad: 19 – 20 Mai 2016

Rhif y dudalen	Cam gofynnol	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
8	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y cwblheir y broses o sicrhau bod pob eitem fwyd o fewn ei dyddiad ac yn ddiogel i'w bwyta.	9(b)	<p>Rhoddir gwybod i'r holl staff na chânt gadw eu bwyd eu hunain na bwyd a'i ddyddiad wedi dod i ben yn yr oergelloedd ar y wardiau. Mae oergell ar gael iddynt yn yr ystafell staff lle dylid cadw eitemau.</p> <p>Yn ogystal, mae gofyn i'r cynorthwydd cegin sicrhau y cwblheir yr archwiliadau (a fydd yn edrych am achosion o gadw bwyd yn amhriodol ac yn gwirio labeli 'defnyddir erbyn') o fewn yr amserlenni cywir.</p>	Richard Jennings, y prif gogydd. Cefnogaeth gan reolwyr y ward.	01 Awst 2016

			Mae'n rhaid i'r cynorthwydd wirio'r oergelloedd yn ddyddiol a chywiro ac adrodd ynghylch unrhyw bryderon.		
8	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob eitem fwyd wedi ei storio'n briodol yn y rhewgell-rewgistiau.	9(b)	Bydd y cynorthwydd cegin yn gwirio'r oergelloedd yn ddyddiol a chywiro ac adrodd ynghylch unrhyw bryderon, yn ogystal â chwblhau'r archwiliadau.	Richard Jennings, y prif gogydd. Cefnogaeth gan reolwyr y ward.	01 Awst 2016
10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau AGIC ynghylch swyddi gweigion yr ysbyty a hynt y broses recriwtio.	20(10)(a)	Darparwyd hyn i AGIC ar ddiwrnod yr arolygiad. Caiff diweddariadau misol eu hanfon atynt yn awr trwy'r porth.	Lydia Bevan, y rheolwr gwasanaethau cefnogi; Gytis Kucinskas, gweinyddwr adnoddau dynol	01 Awst 2016
11	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiwygio arddangosfeydd y cwdyn cyfarpar dadebru er mwyn sicrhau bod cynnwys y cwdyn cyfarpar dadebru'n eglur fel y gall gael ei wirio a'i	15(2) a 26(2)(c)	Er bod rhestr wirio gynhwysfawr, ddiwygiedig a chaiff archwiliadau eu cwblhau'n wythnosol ar bob ward, gofynnodd AGIC i'r ysbyty sicrhau y caiff llun o'r cyfarpar ei dynnu er mwyn arddangos cynnwys y cydau dadebru. Caiff	Rheolwr gwasanaethau clinigol	01 Awst 2016

	gynnal.		llun a rhestr o'r cynnwys eu harddangos ym mhob ardal argyfwng.		
13	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu diweddariad ar weithredu'r system adolygu a monitro therapi galwedigaethol ar gyfer gweithgareddau cleifion.	15(1)(a)(b) ac (c)	Datblygu a gweithredu system newydd ar gyfer dogfennu/dilyn y sesiynau therapi a gynigir, y rhai a wrthodir a rhesymau'r claf dros wrthod, a pha ddewisiadau eraill a gynigiwyd sy'n ystyrlon ar gyfer yr unigolyn. Caiff hyn ei adolygu'n wythnosol ac, yn dibynnu ar ymgysylltiad y claf yn yr wythnosau blaenorol, caiff hyn ei adlewyrchu a'i newid yn ei amserlen unigol.  Mae'r broses hon bellach ar waith.	Richard Hewitt, therapydd galwedigaethol, ac Emma Warman, y rheolwr gwasanaethau clinigol	04 Gorffennaf 2016
13	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu diweddariad ar gyflwyno asesiadau addysg sylfaenol ar gyfer y cleifion.	15(1)(a)(b) ac (c)	Bydd y safle yn cwblhau asesiad addysg sylfaenol ar y cleifion presennol ac yna ar gyfer pob claf newydd, pan fydd yn briodol i'w wneud.	Richard Hewitt, therapydd galwedigaethol	09 Medi 2016
14	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r cofnodion hyfforddi a sicrhau yr eir i'r afael â diffygion o ran hyfforddiant gorfodol.	21(2)(a) a (d)	Caiff hyn ei adolygu a'i drafod yn wythnosol trwy gyfarfodydd adnoddau dynol a thîm yr uwch-reolwyr sydd ar waith. Mae hyn yn helpu hynt yr hyfforddiant ar y safle.	Gytis Kucinkas, gweinyddwr dysgu'r safle; Emma Warman, rheolwr	29 Gorffennaf 2016

			Mae amserlen hyfforddi dreigl newydd hefyd fel y gellir cynnal hyfforddiant pawb.	gwasanaethau clinigol.	
14	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff rhaglen oruchwyliaeth ei rhoi ar waith a'i thystio.	20(2)(a) a (b)	Bydd goruchwyliaeth ar y safle yn cael ei hadolygu a chaiff strwythur cefnogi a goruchwyllo ei nodi a'i weithredu.	Emma Warman, rheolwr gwasanaethau clinigol; Adam Lampitt, cyfarwyddwr yr ysbyty; Carla Ferreira, seicolegydd.	04 Gorffennaf 2016
16	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gofynion Adran 26, ac Adran 29 lle bo'n briodol, y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cwblhau a'u tystio yn nodiadau'r cleifion.		Bydd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r rheolwr gwasanaethau clinigol, ynghyd â seiciatrydd, yn archwilio ac yn craffu ar ffeiliau'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan sicrhau bod perthynas agosaf wedi'i henwi. Lle na enwir perthynas agosaf, bydd y safle'n cyfeirio at y tîm gwaith cymdeithasol i ddarparu person penodol.	Emma Warman, rheolwr gwasanaethau clinigol; Anyce Gentle, gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl; seiciatrydd ymgynghorol.	29 Gorffennaf 2016
16	Rhaid i gopïau o ddogfennaeth y Ddeddf		Bydd papurau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu lanlwytho i'r	Emma Warman, rheolwr	01 Awst 2016

	lechyd Meddwl, gan gynnwys tystysgrifau cydsynio i driniaeth a ffurflenni asesu galluedd MH11, fod ar gael i staff y ward eu hadolygu yn ôl y gofyn.		system nodiadau gofal electronig er mwyn i bob defnyddiwr gael mynediad atynt.	gwasanaethau clinigol; Anyce Gentle, gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	
17	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y system cofnodion cleifion electronig yn galluogi staff i ddogfennu cydymffurfiaeth â'r Mesur Iechyd Meddwl.	23(1)(a)	Bydd pob copi papur yn cael ei lanlwytho i'r system electronig, gan gynnwys gwaith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl ac unrhyw asesiadau.	Emma Warman, rheolwr gwasanaethau clinigol; Anyce Gentle, gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl; y tîm amlddisgyblaethol	01 Awst 2016
17	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod aelodau'r staff yn gymwys i gwblhau dogfennaeth sy'n cydymffurfio â'r Mesur Iechyd Meddwl.	21(2)(a) a (d)	Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r staff ar ddefnyddio nodiadau gofal a chofnodi digwyddiadau – caiff hyn ei wneud yn ystod y sesiwn hyfforddi allanol nesaf.	Emma Warman, rheolwr gwasanaethau clinigol; Gytis Kucinkas, gweinyddwr dysgu'r safle.	09 Medi 2016
17	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yr holl	23(1)(a) a 23(3)(a)	Ni fydd unrhyw fylchau na ellir eu hesbonio yn y system cofnodi gofal	Emma Warman, rheolwr	09 Medi 2016

	ddisgyblaethau'n cwblhau cofnodion gofal iechyd yn llawn.		iechyd. Caiff hyn ei archwilio yn wythnosol fel rhan o'r gydymffurfiaeth gyffredinol.	gwasanaethau clinigol, a rheolwyr ward.	
--	---	--	---	---	--